❖ Rhoddion Duw

Arglwydd, diolchwn iti
am bob rhodd a bendith a ddaeth i ni
ar adeg y Nadolig yn nyfodiad dy Fab, Iesu Grist.

Daeth *cariad* i lawr ar adeg y Nadolig,
a gwelwyd y cariad hwnnw yn Iesu:
bydded i'w gariad ef ein clymu ynghyd
a dyfnhau ein perthynas â'n gilydd.

Daeth *heddwch* i lawr ar adeg y Nadolig,
a gwelwyd yr heddwch hwnnw yn Iesu:
bydded i'w heddwch ef lenwi'n calonnau
a'n gwneud yn dangnefeddwyr.

Daeth *llawenydd* i lawr ar adeg y Nadolig,
a gwelwyd y llawenydd hwnnw yn Iesu:
bydded i'w lawenydd ef lifo trwom
tuag at bawb sy'n unig ac yn drist.

Daeth *goleuni* i lawr ar adeg y Nadolig,
a gwelwyd y goleuni hwnnw yn Iesu:
bydded i'w oleuni ef lewyrchu arnom
a gwasgaru pob tywyllwch sydd ynom.

Bydded i gariad, heddwch, llawenydd a goleuni
feddiannu'n calonnau wrth i ni, y Nadolig hwn,
ddathlu dyfodiad Duw i blith ei bobl,
yn enw Iesu Grist ein Harglwydd.

Donald Hilton